Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Parc Cathays / Cathays Park
Caerdydd / Cardiff CF10 3NQ

23 Hydref 2025

Prif Swyddogion Cyllid,
Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Annwyl Gyfaill,

## Ffurflen anheddau sy'n destun treth gyngor (CT1) ar gyfer 2026-27

1. Diben y ffurflen uchod yw ceisio gwybodaeth am ysylfaen drethu ar gyfer 2026-27 gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol o dan adran 68 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

2. Dylid cyfrifo'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan gyfeirio at yr anheddau a ddangosir ar restr brisio'r awdurdod sy'n gywir ar 31 Hydref 2025 (a roddwyd i'r awdurdod o dan adran 22B(7) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Deddfwriaeth DU) fel y mewnosodwyd gan adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (Deddfwriaeth DU). Dylai'r ffigurau hyn hefyd ystyried y newidiadau i'r rhestr brisio sy'n debygol o ddigwydd yn ystod 2026-27.

3. Roedd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004 (Deddfwriaeth Cymru) (a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2004) yn rhagnodi mai yn ystod y cyfnod o 1 Tachwedd i 31 Rhagfyr y dylid cyfrifo sylfaen drethu 2026-27. Fodd bynnag, er mwyn bodloni'r dyddiad cau ar gyfer cyfrifo dosbarthiad y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2026-27, rydym yn gofyn i'r wybodaeth dros dro am y sylfaen drethu ein cyrraedd erbyn **14 Tachwedd 2025**. Mae'n bwysig bod yr wybodaeth dros dro hon mor agos â phosibl at y sylfaen drethu wirioneddol a gyfrifir ar gyfer yr awdurdod ac y rhoddir gwybod amdani i'w phrif awdurdod praeseptio; gallai fod angen gwneud addasiadau i hawliadau'r Grant Cynnal Refeniw drwy adroddiad diwygio os oes gwahaniaethau sylweddol.

### Defnyddio'r wybodaeth

4. Bydd cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D, cyn addasu ar gyfer y gyfradd gasglu (E6), yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r hawliadau ar gyfer Grant Cynnal Refeniw 2026-27. Bydd y ffigur hwn yn ymddangos yn Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) (Cymru) 2026-27. Bydd yr wybodaeth hefyd yn cael ei chyhoeddi mewn datganiad ystadegol ym mis Ionawr 2026.

### Dyddiad cau ar gyfer dychwelyd yr wybodaeth

5. Mae angen amcangyfrif o sylfaen drethu eich awdurdod at ddibenion paratoi setliad terfynol llywodraeth leol erbyn y dyddiad isod:

    a. Copi ardystiedig a thaenlen - **14 Tachwedd 2025**.

6. Rhaid cyflwyno'r data erbyn y dyddiad cau er mwyn galluogi penderfyniadau terfynol ar lefel Gweinidogol i gael ei gwneud ar y setliad llywodraeth leol, sy'n cael ei gyhoeddi ar y **24 Tachwedd**. Gall methiant i gydymffurfio arwain at y setliad yn cael ei ohirio.

7. Mae gan gynghorau hyd at 31 Rhagfyr i gyfrifo'u sylfaen drethu at ddibenion gosod treth. Felly, bydd angen cyflwyno copi ardystiedig arall o CT1, yn dangos y sylfaen drethu derfynol a ddefnyddiwyd at ddibenion gosod y dreth (wedi'i gadarnhau gan y cyngor llawn neu yn ôl penderfyniad gweithredol),

erbyn **9 Ionawr 2026**. Bydd angen i wahaniaethau sylweddol rhwng y ffigurau a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2025 a mis Ionawr 2026 gael eu cysoni a'u rhestru'n llawn ar wahân.

8. Ni fydd yn bosibl ymestyn dyddiadau cau'r ffurflenni. Os rhagwelir unrhyw broblemau cyn y dyddiadau cau, cysylltwch â ni ar unwaith.

9. Mae'r ffurflenni wedi'u llunio fel bod modd trosglwyddo data yn awtomatig i mewn i'n systemau dilysu. Felly, mae'n bwysig eu bod yn parhau i gael eu diogelu. Os na fydd pob tudalen yn cael ei diogelu, gall y broses awtomeiddio gael ei llygru.

**Manylion Cyswllt**

10. Os gwelwch yn dda, e-bostiwch daenlenni gorffenedig i YCLLL.trosglwyddo@llyw.cymru.
Rydym yn gofyn am gopi ardystiedig o'r fersiwn terfynol o'ch ymateb yn unig, wedi'i e-bostio mewn fformat PDF.

11. Ymholiadau dros y ffôn:

- Frank Kelly (ffôn: 0300 025 5673) neu
- Jack Tennant (ffôn: 0300 025 9221) neu
- trwy e-bost i YCLLL.trosglwyddo@llyw.cymru

Diolch ichi am eich cydweithrediad.

Cofion cynnes,

**Anthony Newby**

Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol,
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi,
Llywodraeth Cymru